



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: 2021

Data ar fasnach nwyddau Cymreig i lefydd tu hwnt i'r DU
rhwng 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 27 Ebrill 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Prif ganfyddiadau

Allforion

Allforion yn ôl cyrchfan

Allforio cynhyrchion o'r radd flaenaf

Mewnforion

Mewnforion yn ôl tarddiad

Mewnforio cynhyrchion o'r radd flaenaf

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

Cyflwyniad

Mae'r data dros dro yn y bwletin hwn yn crynhoi amcangyfrifon Cyllid a Thollau EM o lifau masnach nwyddau a allforiwyd ac a fewnforiwyd rhwng Cymru a gwledydd partner yn 2021, gan ddarparu cymariaethau â'r DU. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu effaith pandemig parhaus Covid-19 a diwedd cyfnod pontio'r UE ar fasnach nwyddau o Gymru. Oherwydd effaith sylweddol cyfyngiadau Covid-19 ar fasnach ryngwladol yn 2020, mae llawer o ffigurau yn y bwletin hwn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

yn cymharu â 2019. Anogir defnyddwyr i fod yn ofalus wrth gymharu masnach dros amser. Mae dadansoddiad manylach ar gael drwy [ein hofferyn rhyngweithiol delweddu data masnach nwyddau rhyngwladol](#) a [thablau StatsCymru ar allforion](#).

Prif ganfyddiadau

Oherwydd newidiadau i'r ffordd y caiff y data ei gasglu, gellir adrodd yn awr ar fasnach gwerth isel ychwanegol a ddyrannwyd yn flaenorol i wledydd a rhanbarthau o dan y categori 'Heb ei neilltuo-anhysbys'. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad tebygol yn y DU i werthoedd allforio'r UE, a chyfanswm gwerthoedd allforio Cymru (a rhanbarthau eraill) o fis Ionawr 2021 ymlaen. Gellir darllen nodiadau manylach o'r effeithiau hyn yn [sylwadau llawn Gyllid a Thollau EM \(Gwybodaeth Masnach y DU\)](#) ar yr ystadegau hyn. Efallai y bydd rhywfaint o'r data ar allforion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cael ei ddiwygio gan Gyllid a Thollau EI Mawrhydi fel rhan o'u diwygiadau rheolaidd i'r set ddata. Bydd y data diweddaraf ar gael ar [wefan Gwybodaeth Masnach y DU](#).

Allforion

- Gwerth allforion nwyddau i Gymru oedd £15.2 biliwn yn 2021, cynnydd o £1.7 biliwn (12.4%) o'i gymharu â 2020 a gostyngiad o £2.5 biliwn (14.3%) o'i gymharu â 2019.
- O'i gymharu â 2020, cynyddodd allforion i wledydd yr UE £1.1 biliwn (14.1%) ac i wledydd y tu allan i'r UE cynyddodd £0.6 biliwn (10.0%). O'i gymharu â 2019, gostyngodd allforion i wledydd yr UE £1.7 biliwn (15.5%) ac i wledydd y tu allan i'r UE gostyngodd £0.9 biliwn (12.5%).
- Mae'r gostyngiad mewn allforion yn 2021 o'i gymharu â 2019 yn cael ei yrru gan ostyngiad o £1.6 biliwn (55.9%) i Ffrainc, gostyngiad o £0.5 biliwn (20.0%) i'r Unol Daleithiau, a gostyngiad o £0.5 biliwn (16.0%) i'r Almaen.
- Roedd allforion i'r UE yn cyfrif am 59.8% o allforion Cymru, o'i gymharu â 49.2% o allforion y DU. Gwelwyd cyfrannau tebyg yn 2020 a 2019.
- Ar draws y DU gyfan, cynyddodd gwerth allforion nwyddau 6.6%, o'i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gymharu â 2020 a gostyngodd 8.9% o'i gymharu â 2019.


Mewnforion

- Gwerth mewnforion nwyddau i Gymru oedd £16.1 biliwn yn 2021, cynnydd o £1.9 biliwn (13.2%) o'i gymharu â 2020 a gostyngiad o £2.1 biliwn (11.4%) o'i gymharu â 2019.
- O'i gymharu â 2020, arhosodd mewnforion o wledydd yr UE yn sefydlog ar £5.9 biliwn a chynyddodd mewnforion o wledydd y tu allan i'r UE £1.9 biliwn (22.6%). O'i gymharu â 2019, gostyngodd mewnforion o wledydd yr UE £1.0 biliwn (14.2%) ac o wledydd y tu allan i'r UE gostyngodd £1.1 biliwn (9.7%).
- Roedd mewnforion o'r UE yn cyfrif am 36.7% o fewnforion o Gymru, o'i gymharu â 47.1% o fewnforion y DU.
- Mae'r gostyngiad mewn mewnforion yn 2021 o'i gymharu â 2019 yn cael ei yrru gan ostyngiad o £1.0 biliwn (32.8%) o'r Unol Daleithiau a gostyngiad o £0.8 biliwn (42.3%) o'r Almaen.
- Ledled y DU yn gyffredinol, cynyddodd mewnforion nwyddau 9.0% o gymharu â'r flwyddyn 2020 a gostyngodd 5.5% o'i gymharu â'r flwyddyn 2019.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 1: Masnach nwyddau Cymru, 2018 Ch1 i 2021 Ch4 (£ biliynau)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Data allforion ar StatsCymru

Gostyngodd allforion a mewnforion cynnyrch o'r UE a'r tu allan i'r UE yn sylweddol yn ystod 2020 oherwydd dechrau'r pandemig ond yn gyffredinol maent wedi gwella yn ystod y chwarteri diweddar. Gallai terfynau amser ymadael yr UE fod wedi arwain at ddirywiad yn allforion yr UE, perfformiodd allforion Cymru yn gryf yn y chwarteri diweddar ac maent bellach yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig a welwyd yn chwarter olaf 2019. Mae mewnforion yn dangos enillion cyffredinol i lefel cyn y pandemig, mae hyn wedi'i ysgogi gan fewnforion o'r tu allan i'r UE, mae mewnforion o'r UE yn dal i fod yn is na lefelau 2019.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Allforion

Gwerth allforion nwyddau i Gymru oedd £15.2 biliwn yn 2021, cynnydd o £1.7 biliwn (12.4%) o'i gymharu â 2020 a gostyngiad o £2.5 biliwn (14.3%) o'i gymharu â 2019. Ar draws y DU yn gyffredinol, cynyddodd allforion nwyddau 6.6% o'i gymharu â 2020, a gostyngodd 8.9% o'i gymharu â 2019.

Tabl 1: Gwerth allforion nwyddau o Gymru yn ôl cyrchfan, 2019 i 2021 (£ biliynau)

Cyrchfan	Symiau (£ biliynau)			Newid canrannol	
	2019	2020	2021 (dros dro)	ar 2019	ar 2020
UE	10.8	8.0	9.1	-15.5%	14.1%
tu allan i'r UE	7.0	5.6	6.1	-12.5%	10.0%
Cyfanswm	17.8	13.5	15.2	-14.3%	12.4%

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Tabl 2: Gwerth allforion nwyddau o DU yn ôl cyrchfan, 2019 i 2021 (£ biliynau)

Cyrchfan	Symiau (£ biliynau)			Newid canrannol	
	2019	2020	2021 (dros dro)	ar 2019	ar 2020
UE	168.5	142.6	152.5	-9.5%	6.9%


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

	Symiau (£ biliynau)		Newid canrannol		
tu allan i'r UE	171.8	148.0	157.4	-8.3%	6.4%
Cyfanswm	340.2	290.6	309.9	-8.9%	6.6%

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Siart 2: Mynegai allforion nwyddau yn ôl blwyddyn, Cymru a'r DU, 2013 i 2021 (2013 = 100)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Data allforion ar StatsCymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Allforion yn ôl cyrchfan


Gwerth allforion nwyddau i Gymru i wledydd yr UE oedd £9.1 biliwn, cynnydd o £1.1 biliwn (14.1%) o'i gymharu â 2020 a gostyngiad o £1.7 biliwn (15.5%) o'i gymharu â 2019. Mae'r gostyngiad mewn allforion i'r UE yn 2021 o'i gymharu â 2019 yn cael ei yrru gan ostyngiad o £1.6 biliwn (55.9%) i Ffrainc a gostyngiad o £0.5 biliwn (16.0%) i'r Almaen.

Gwerth allforion nwyddau o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE oedd £6.1 biliwn, cynnydd o £0.6 biliwn (10.0%) o'i gymharu â 2020 a gostyngiad o £0.9 biliwn (12.5%) o'i gymharu â 2019. Mae'r gostyngiad mewn allforion i'r tu allan i'r UE yn 2021 o'i gymharu â 2019 yn cael ei yrru gan ostyngiad o £0.5 biliwn (20.0%) i'r Unol Daleithiau. Fodd bynnag, mae allforion i'r Unol Daleithiau wedi cynyddu o'i gymharu â 2020 o £0.4 biliwn (22.2%).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 3: Allforio nwyddau yn ôl blwyddyn a chyrchfan eang, Cymru, 2013 to 2021 (£ biliynau)




Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Data allforion ar StatsCymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 4: Allforio nwyddau yn ôl blwyddyn a chyrchfan eang, DU 2013 to 2021, (£ biliynau)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Data allforion ar StatsCymru

Yn 2021, yr Almaen oedd y farchnad allforio fwyaf o hyd ar gyfer cynnyrch o Gymru, gan gyfrif am £2.4 biliwn (15.9%) o allforion. Roedd y gyfran hon yn debyg yn 2020, ond i lawr o 16.2% yn 2019. Yr Unol Daleithiau oedd yr ail farchnad allforio fwyaf, gan gyfrif am £2.2 biliwn (14.4%) yna Iwerddon, gydag £1.7 biliwn (11.4%).

O'i gymharu â lefelau cyn y pandemig yn 2019, gostyngodd allforion nwyddau fwyaf i Ffrainc gyda gostyngiad o £1.6 biliwn (55.9%). Cafodd y gostyngiad mewn gwerth allforio i Ffrainc ei yrru gan allforion o 'Offer Trafnidiaeth Eraill' a ostyngodd bron i £1.6 biliwn (79.8%).


Fodd bynnag, o'i gymharu â 2020 mae allforion nwyddau i Wlad Belg ac

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Iwerddon wedi dangos y cynnydd a'r arwyddion mwyaf o ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig, gan gynyddu'r mwyaf gyda chynnydd o £0.6 biliwn (125.1%) a £0.5 biliwn (45.7%) yn y drefn honno. Ysgogwyd y cynnydd mewn gwerth allforio i Wlad Belg gan allforion 'Cynhyrchion Meddyginiaethol a Fferyllol' a 'Plastigau ar ffurf Sylfaenol' a gynyddodd £122.9 miliwn (1,808.2%) a £112.2 miliwn (230.1%) yn y drefn honno.

Siart 5: Y 5 cyrchfan uchaf ar gyfer allforion nwyddau Cymreig, 2019 to 2021 (£ biliynau)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Data allforion ar StatsCymru

Allforio cynhyrchion o'r radd flaenaf

Yn 2021, y categori cynnyrch a allforiwyd fwyaf o Gymru oedd 'Peiriannau ac

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Offer Cynhyrchu Pŵer' a oedd yn cynnwys £2.1 biliwn (14.1%) o gyfanswm yr allforion nwyddau. Roedd y gyfran hon i fyny o 11.1% yn 2020 ac i lawr o 12.5% yn 2019. Mae wedi disodli 'offer trafndiaeth arall' sydd wedi bod yn gynnyrch allforio uchaf Cymru yn hanesyddol. Dilynir hyn gan 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' ac 'Offer Trafndiaeth Arall' a oedd yn cynnwys £2.0 biliwn (13.3%) ac £1.9 biliwn (12.4%) o gyfanswm yr allforion nwyddau yn y drefn honno.


O'i gymharu â lefelau cyn y pandemig yn 2019, gostyngodd allforion nwyddau 'Offer Trafndiaeth Arall' a 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' y mwyaf, £2.3 biliwn (55.2%) a £361.4 miliwn (15.2%) yn y drefn honno. Ysgogwyd y gostyngiad mewn allforion 'Offer Trafndiaeth Arall' gan ostyngiad o £1.6 biliwn (79.8%) i Ffrainc a £0.7 biliwn (37.2%) i'r Almaen.

Fodd bynnag, o'i gymharu â 2020, mae allforion 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' a 'Pheiriannau ac Offer Cynhyrchu Pŵer' yn dechrau dangos eu bod yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, gan gynyddu'r mwyaf gyda chynnydd o £0.7 biliwn (50.7%) a £0.6 biliwn (42.3%) yn y drefn honno. Ysgogwyd y cynnydd mewn allforion 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' gan gynnydd mewn allforion i'r Unol Daleithiau ac Iwerddon, gyda chynnydd o £432.8 miliwn (123.7%) a £201.4 miliwn (35.9%) yn y drefn honno.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 6: Y 5 cynnyrch gorau ar gyfer allforion nwyddau Cymreig, 2019 to 2021 (£ biliynau)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Data allforion ar StatsCymru

Mewnforion

Gwerth mewnforion nwyddau i Gymru oedd £16.1 biliwn yn 2021, cynnydd o £1.9 biliwn (13.2%) o'i gymharu â 2020 a gostyngiad o £2.1 biliwn (11.4%) o'i gymharu â 2019. Ar draws y DU yn gyffredinol, cynyddodd mewnforion nwyddau 9.0%, o'i gymharu â 2020 a gostyngodd 5.5% o'i gymharu â 2019.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Tabl 3: Gwerth mewnforion nwyddau o Gymru yn ôl tarddiad, 2019 i 2021 (£ biliynau)

Tarddiad	Symiau (£ biliynau)			Newid canrannol	
	2019	2020	2021 (dros dro)	ar 2019	ar 2020
UE	6.9	5.9	5.9	-14.2%	0.0%
tu allan i'r UE	11.3	8.3	10.2	-9.7%	22.6%
Cyfanswm	18.2	14.3	16.1	-11.4%	13.2%

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Tabl 4: Gwerth mewnforion nwyddau o DU yn ôl tarddiad, 2019 i 2021 (£ biliynau)


Tarddiad	Symiau (£ biliynau)			Newid canrannol	
	2019	2020	2021 (dros dro)	ar 2019	ar 2020
UE	267.0	226.3	217.3	-18.6%	-4.0%
tu allan i'r UE	220.9	196.7	243.8	10.4%	23.9%
Cyfanswm	487.8	423.1	461.2	-5.5%	9.0%

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 7: Mynegai mewnfiorion nwyddau yn ôl blwyddyn, Cymru a'r DU, 2013 i 2021 (2013 = 100)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Mewnfiorion yn ôl tarddiad


Arhosodd gwerth mewnfiorion nwyddau i Gymru o wledydd yr UE yn sefydlog ar £5.9 biliwn, bu gostyngiad o £1.0 biliwn (14.2%) o'i gymharu â 2019. Mae'r gostyngiad mewn mewnfiorion o wledydd yr UE yn 2021 o'i gymharu â 2019 yn cael ei yrru gan ostyngiad o £0.8 biliwn (42.3%) o'r Almaen.

Gwerth mewnfiorion nwyddau i Gymru o wledydd y tu allan i'r UE oedd £10.2 biliwn, cynnydd o £1.9 biliwn (22.6%) o'i gymharu â 2020 a gostyngiad o £1.1 biliwn (9.7%) o'i gymharu â 2019. Mae'r gostyngiad mewn mewnfiorion o'r tu allan i'r UE yn 2021 o'i gymharu â 2019 yn cael ei yrru gan ostyngiad o £1.0 biliwn (32.8%) o'r Unol Daleithiau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 8: Mewnforion nwyddau yn ôl blwyddyn a tharddiad, Cymru, 2013 i 2021 (£ biliynau)




Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 9: Mewnforion nwyddau yn ôl blwyddyn a tharddiad, DU, 2013 i 2021 (£ biliynau)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Yn 2021, yr Unol Daleithiau oedd y farchnad fewnforio fwyaf i Gymru o hyd, gan gyfrif am £2.1 biliwn (13.3%) o fewnforion. Roedd y gyfran hon i lawr o 17.2% o fewnforion yn 2020, ac i lawr o 17.5% yn 2019. Tsieina oedd yr ail farchnad fewnforio fwyaf, gan gyfrif am £1.4 biliwn (8.8%) yna'r Almaen, gyda £1.1 biliwn (6.7%).

O'i gymharu â lefelau cyn y pandemig yn 2019, gostyngodd mewnforion nwyddau fwyaf o'r Unol Daleithiau gyda gostyngiad o £1.0 biliwn (32.8%) a'r Almaen gyda gostyngiad o £0.8 biliwn (42.3%). Ysgogwyd y gostyngiad mewn gwerth mewnforio o'r Unol Daleithiau gan fewnforion o 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' ac 'Peiriannau ac Offer Cynhyrchu Pŵer' a ostyngodd £466.3 miliwn (39.3%) a £351.2 miliwn (37.5%) yn y drefn honno.


Fodd bynnag, o'i gymharu â 2020 mae mewnforion nwyddau o Sbaen ac Algeria

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

wedi cynyddu fwyaf, gan gynyddu £306.7 miliwn (74.2%) a £298.7miliwn (484.6%) yn y drefn honno. Ysgogwyd y cynnydd mewn gwerth mewnforio o Sbaen gan fewnforion o 'Erthyglau Gweithgynhyrchu Amrywiol nad ydynt wedi'u Pennu mewn Mannau Eraill' a 'Metelau Anfferrus' a gynyddodd £153.1 miliwn (347.8%) a £127.6 miliwn (214.3%) yn y drefn honno.

Siart 10: Y 5 tarddiad gorau ar gyfer mewnforion nwyddau Cymru, 2019 i 2021 (£ biliynau)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Mewnforio cynhyrchion o'r radd flaenaf

Yn 2021, y cynnyrch SITC uchaf a fewnforiwyd i Gymru oedd 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' a oedd yn cynnwys £3.5 biliwn (21.4%) o gyfanswm y nwyddau a fewnforiwyd. Roedd y gyfran hon i fyny o 16.5% yn 2020 ac i fyny o 21.1% yn 2019. Dilynwyd hyn gan 'Beiriannau ac Offer Cynhyrchu Pŵer' a 'Cherbydau Ffyrdd (gan gynnwys Cerbydau Clustogau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Awyr)' a oedd yn cynnwys £1.7bn (10.6%) a £1.0bn (6.5%) o gyfanswm y nwyddau a fewnforiwyd yn y drefn honno.


O'i gymharu â lefelau cyn y pandemig yn 2019, gostyngodd mewnfôrion nwyddau o 'Beiriannau ac Offer Cynhyrchu Pŵer' fwyaf, gyda gostyngiad o £415.4 miliwn (19.6%), ac yna 'Offer Trafnidiaeth Arall', gan ostwng £391.5 miliwn (47.5%). Ysgogwyd y gostyngiad mewn mewnfôrion o 'Beiriannau ac Offer Cynhyrchu Pŵer' gan ostyngiad mewn mewnfôrion o'r Unol Daleithiau, gyda gostyngiad o £351.2 miliwn (37.5%).

Fodd bynnag, o'i gymharu â 2020 mae mewnfôrion nwyddau o 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' a 'Haearn a Dur' wedi dangos y cynnydd a'r arwyddion mwyaf o ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig, gyda chynnydd o £1.0 biliwn (46.6%) a £188.6 miliwn (94.8%) yn y drefn honno. Ysgogwyd y cynnydd mewn mewnfôrion o 'Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig' gan gynnydd mewn mewnfôrion o Algeria a Nigeria, gyda chynnydd o £303.3 miliwn (533.7%) a £187.5 miliwn (205.5%) yn y drefn honno.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Siart 11: Y 5 cynnyrch uchaf ar gyfer mewnforyn nwyddau Cymreig, 2019 i 2021 (£ biliynau)



Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Nodyn: Mae data 2021 yn amodol.

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Rydym am gael eich adborth

Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu eu dadansoddiad a'u cyhoeddiad o ddata masnach Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gan gynnwys a fydd yn effeithio ar gynnwys y bwletin masnach rhyngwladol blynyddol hwn.

Mae'r bwletin masnach rhyngwladol hwn yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu o Ystadegau Masnach Rhanbarthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu bwletinau ystadegol sy'n crynhoi ystadegau allforio rhanbarthol chwarterol a blynyddol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer Cymru. Mae bwletin masnach rhyngwladol Cymru bellach yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cynnwys allforion a mewnfôrion. Mae data hefyd ar gael drwy ein [hofferyn rhyngweithiol delweddu data masnach](#) a'n [tablau StatsCymru sy'n cwmpasu allforion](#).

Wrth adolygu'r ystadegau a gyhoeddir gennym, ein nod yw symleiddio'r data masnach sydd ar gael a byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu eu hanghenion. Os hoffech fod yn rhan o adolygiad, neu roi unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, anfonwch e-bost at ystadegau.masnach@llyw.cymru.

Perthnasedd

Mae'r data dros dro yn y bwletin hwn yn crynhoi Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau (RTS) Cyllid a Thollau EI Mawrhydi o fasnach nwyddau i Gymru yn 2021, gan ddarparu cymariaethau â'r DU. Mae pandemig COVID-19 ac ymadael â'r UE yn debygol o fod wedi effeithio ar fasnach nwyddau Cymru yn 2021.

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys data dadansoddi ar gyfer 2021, 2020 a 2019. Defnyddir yr ystadegau hyn gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad mewn masnach nwyddau i Gymru, yn ogystal â darparu cymariaethau â'r DU a rhanbarthau eraill. Defnyddir y bwletin hwn hefyd gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, busnesau, y byd academiaidd ac unigolion preifat.

Cywirdeb

Y data yn y bwletin hwn yw'r Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau (RTS) a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EI Mawrhydi. Mae'r ystadegau hyn yn cyfeirio at nwyddau sydd wedi croesi ffin y DU. Mae hyn yn golygu nad yw allforion o Gymru i rannau eraill o'r DU wedi'u cynnwys ac nid oes unrhyw elfen wedi'i chynnwys ar gyfer cydrannau a gynhyrchir yng Nghymru pan fydd y cynnyrch terfynol yn cael ei gwblhau ac yna'n cael ei allforio o ran arall o'r DU. Nid yw CThEM yn derbyn gwybodaeth mewn perthynas â nwyddau sy'n symud yn gyfan gwbl o fewn y DU. At hynny, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am allforio gwasanaethau fel bancio neu dwristiaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Amseroldeb a phrydlondeb

Cyhoeddir Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau bob chwarter gan CThEM ym mis Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr. Cyhoeddir y prif ystadegau masnach ryngwladol gan Lywodraeth Cymru ar yr un pryd.

Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r Prif Ystadegau, y Bwletin Ystadegol a'r offeryn rhyngweithiol delweddu data masnach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae datganiad chwarterol diweddaraf CThEM ar Fasnach Ranbarthol mewn Ystadegau Nwyddau (RTS) ar gael ar wefan Cyllid a Thollau EM. Cyhoeddir data allforion ar StatsCymru.

Cymaroldeb a chydlynid

Mae ystadegau arbrofol ar fasnach ryngwladol mewn nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau yng Nghymru hefyd ar gael ar ein [Harolwg Masnach i Gymru](#). Arolwg gwirfoddol ar-lein yw Arolwg Masnach Cymru, sy'n casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan fusnesau sydd â gweithrediadau yng Nghymru i fesur llifau masnach (o ran gwerthu a phrynu nwyddau a gwasanaethau) i Gymru ac oddi yno.

Cyhoeddir mesurau tebyg ar gyfer gwledydd eraill y DU ar StatsCymru.

Mae'r data a ddangosir ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn seiliedig ar y 28 aelod-wladwriaeth a oedd yn cynnwys yr UE (hynny yw, y 28 o wladwriaethau heb y DU am y blynyddoedd roedd y DU yn aelod o'r UE, gan mai dim ond allforion i gyrchfannau y tu allan i'r DU sy'n cael eu cynnwys yn y cyhoeddiad hwn).

Nid yw cyfansymiau chwarterol y gwerth am RTS yn cyfateb i'r cyfansymiau a gyhoeddwyd eisoes fel Ystadegau Masnach Dramor mewn Nwyddau ledled y DU. Nid yw rhai nwyddau, megis olew crai Môr y Gogledd, llongau a storffeydd awyrennau, a'r rhai nad ydynt yn cael eu dosbarthu'n rhad ac am ddim, sy'n cael

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

eu cludo i wledydd yr UE gan ddefnyddio datganiadau Tollau traddodiadol, yn cael eu dyrannu i ranbarth yn y DU. Mae allforion sy'n ymwneud â chwmnïau tramor, sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn y DU, ond heb unrhyw le busnes yn y DU, wedi'u heithrio. Mae ynysoedd y sianel a masnach Ynys Manaw hefyd wedi'u heithrio. Yn ogystal, ni ellir dyrannu rhai allforion i wledydd y tu allan i'r UE i ranbarth gan nad yw'r rhifau cofrestru TAW wedi'u datgan yn briodol. Mae'r gwaharddiadau hyn yn golygu nad yw'n bosibl cysoni cyfanswm y ffigurau ar gyfer masnach ranbarthol yn erbyn ffigurau masnach y DU.

Caiff data eu coladu gan ddefnyddio'r system Dosbarthiad Masnach Ryngwladol Safonol (SITC).

Methodoleg

O 1 Mai 2016, roedd newid methodolegol i'r ffordd y caiff ystadegau masnach mewn nwyddau y tu allan i'r UE eu llunio. Yn dilyn newid mewn deddfwriaeth, mae ystadegau masnach mewn nwyddau nad ydynt yn rhan o'r UE wedi newid o'r system 'Masnach Gyffredinol' o lunio i'r system 'Masnach Arbennig'. I gael rhagor o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng Masnach Gyffredinol a Masnach Arbennig, gweler Papur Methodoleg Cyllid a Thollau EM ar gyfer Ystadegau Masnach Dramor mewn Nwyddau. Dim ond ar gyfer 2013 C1 ymlaen y mae data Masnach Arbennig ar gael. Mae'r holl ddata yn y bwletin hwn yn Fasnach Arbennig.

Mae CThEM wedi diwygio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo Ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau. Mae masnach busnes bellach yn cael ei dyrannu i ranbarth sy'n seiliedig ar gyfran y cyflogeion yn y ranbarth hwnnw yn hytrach na lle mae lleoliad Prif Swyddfa'r busnes. O dan yr hen fethodoleg, roedd allforion i'r UE o Gymru yn cyfrif am 39.2% a gofnodwyd ar gyfer y pedwar chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2016. Mae'r fethodoleg newydd yn 60.9% ar gyfer y pedwar chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2016. Mae data ar gael o dan y fethodoleg newydd o 2013 C1. Mae'n amhriodol cymharu data cyfredol â data cyn 2013 ac mae wedi'i eithrio o'r bwletin hwn. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd, diwygiadau a methodoleg y data ar gael ar wefan CThEM.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Diwygiadau

Mae data ar gyfer chwarteri blaenorol wedi'u diwygio yn unol â pholisi adolygu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi lle gellir dilysu a diwygio data ar allforion ar gyfer y flwyddyn galendr gyfredol ar unrhyw adeg, tra gellir dilysu a diwygio data ar allforion ar gyfer y calendr blaenorol tan ychydig ar ôl i ffigurau'r ail chwarter ar gyfer y flwyddyn galendr gyfredol gael eu cyhoeddi.

Mae unrhyw ffigurau sy'n rhai dros dro ar hyn o bryd wedi'u marcio â '(p)' ac maent yn destun adolygiad. Mae diwygiadau i'r data yn codi o ganlyniad i gynnwys diwygiadau masnach a chyflwyniadau hwyr a dderbyniwyd gan Gyllid a Thollau EM. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro am hyd at 18 mis.

Ar gyfer data o'n hallbynnau ein hunain, rydym yn dilyn polisi diwygio Llywodraeth Cymru.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac yn dangos cydymffurfiaeth â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran ymddiriedaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda'r Awdurdod yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan na fydd y safonau uchaf yn cael eu cynnal, a'u hadfer pan gaiff safonau eu hadfer.

Cadarnhawyd y dynodiad parhaus o'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn 2013 yn dilyn gwiriad cydymffurfio gan y **Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau** Cafodd yr ystadegau hyn **asesiad llawn ddiwethaf yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2013**.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

Tynnu tablau mawr o ddata o'r datganiad a sicrhau bod y data ar gael mewn tablau rhyngweithiol ar-lein.

Gwell delweddau drwy ein hofferyn delweddu data masnach rhyngweithiol a sylwebaeth i'w gwneud yn haws i'r darllenwyr dynnu negeseuon allweddol allan.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021. yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Manylion cyswllt

Ystadegydd: James Koe
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

Cyfryngau: 0300 025 8099



SB 10/2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: 2021](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).